## HEBOG & NANTLLE

Er bod y bylchau yn cyfeirio at rai o'r llwybrau uchel ac adwyon drwy'r bryniau, mae nifer o fannau is lle arferai pobl ac anifeiliaid deithio drwyddynt hwy yn rheolaidd.

**Bwlch Cwm Dulyn SH 508490**
Wedi ei enwi ar ol y cwm a'r llyn. Mae rhai o'r enwau du 'tywyll' yn cyfleu ymdeimlad ofnus, nid oedd y llefydd cysgodol yn dda i adar na bywyd gwyllt ac felly daethant yn gysylltiedig â straeon o fyth yn gweld adar yno; neu, gwrachod a bodau yn diflannu i Annwn drwy'r llynnoedd.

**Bwlch Cwm Trwsgl SH 552496**
Ystyr trwsgl 'garw, anodd' yma yw man sy'n galed i grwydro drwyddo, neu dir gwael. Byddai rhannau o'r bwlch yn anoddach fyth ar un adeg gan fod llawer o'r llwybrau wedi eu 'gwella' i gyrraedd mwyngloddiau a chwareli yn yr ardal.

**Bwlch Cwm Ystradllyn SH 576450**
Enwir y cwm oherwydd yr ystrad 'llawr, gwastadedd' + llyn 'pwll'. Heb ei enwi ar fapiau modern, roedd ar un adeg yn llwybr pwysig iawn, gan fod mynd trwy Aberglaslyn a'r gwastadeddau'r morfa dilynol yn anodd iawn ar un adeg. Bwlch-Cwm-ystradllyn 1840-80 6" AO.

**Bwlch Derwin SH 460484**
Man lle tyfai llawer o dderw. Dyma lle y curodd Llywelyn ein Llyw Olaf ei frawd Owain a chymryd Gwynedd fel ei deyrnas. Bwlchderwin 1879 Phillmore, Bwlch-derwin 1901 AO.

**Bwlch Dros Bern SH 530508**
Dyma'r enw cywir ar y bwlch, er bod rhai yn ei alw'n Bwlch Dros Ben; y cynnig arall oedd llygriad o'r gair bar `copa'. Hytrach, gydag amheuaeth bern 'pentwr, bwlch; nant', yn gysylltiedig a Chernyweg *bern* 'stac', Hen Gernyweg *bern* 'pentwr', Hen Wyddeleg *bern* 'bwlch' a roddir.

**Belch Gylfin SH 555534**
Rhaid penderfynu os gylfin 'pig aderyn' neu 'blaen, pig' sydd. Mae yna graig bigfain gerllaw'r bwlch, sef Clogwyn y Garreg, un sydd yn amlwg o bron bob cyfeiriad. Ond mae cylfin yn ffurf amrywiol ar gylfinir; yr aderyn cwrlig 'curlew'. Bulch y Gylfin 1836 Llawysgrifau Vaenol, Bwlch Gyfelin 1838 AO.

**Belch Meillionen SH 560476**
Y gair Meillion 'Clofer' Trifolium gyda'r ol ddodiad bachigol -en. Ond mewn rhai ardaloedd mynyddig, defnyddir y term Meillionen withiau i'r Pys y Ceirw, Ystlys y Waun (Bird's Foot Trefoil) *Lotus Corniculatus*. Bulchmellonen 1269 Litterie Wallie, Bwlch Meillionen 1838 AO.

**Bwlch Sais SH 551491**
Sais yw'r unigol y gair saeson, benthyciad o'r Lladin *Saxōnes*. Tybed os oeddynt yn chwilio am Owain Glyndwr yn ei ogof?

**Bwlch y Bedol SH 512452**
Y tebygrwydd yw mai nid enw sydd yn cyfeirio at ffurf y bwlch neu'r dyffryn, fe ellir ei enwi fel dangosydd o lwybr. ssarn y pedole 1589/90 Llawysgrif Dolfriog, Bwlch-y-bedol 1838 AO.

**Bwlch y Ci SH 566477**
Mae'r gair ci yn syml. Roedd y ci yn greadur a barchwyd gan y bobloedd Geltaidd ar un adeg; roedd yn gysylltiedig yn arbennig â theyrngarwch ac arweinyddiaeth, yn ogystal ag iachâd. Bwlch y Ci 1844 6" AO.

**Bwlch y Ddwy Elor SH 553504**
Elor neu gelor yw'r fframwaith hirsgwar i gludo corff at ochr y bedd. Ar un adeg, pe bai un yn marw mewn plwyf cyfagos i'r un ble anwyd, cymerodd un elor y corff at ffin y plwyf genedigol i gyfnewid y corff yno ai roi ar elor arall er mwyn claddu. Bulchrindeyliawr 1269 Litterie Wallie, Bwlch doyol 1352 Revue Celtique, Bwlch-y-ddau-elor 1838 AO.

**Bwlch y Moch SH 561540**
Ai moch 'buan, cynnar', yn gyfystyr a'r Hen Wyddeleg *mó, mos-, mus*-, Gwyddeleg Canol *moch* 'cynnar' sydd; yn hytrach na moch 'baedd, hwch'? Wrth deithio o Fetws Garmon i Ddyffryn Nantlle gellid dewis un o ddau fwlch, a dyma'r bwlch cyntaf y byddech yn ei gyrraedd wrth groesi o un dyffryn i'r llall. Fodd bynnag, ni ddylai un anghofio'r gair aneglur mochriw 'esgyn, llethr, bryn'.